# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-14-06(P.3)

### Dyddiad: 19 Hydref 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Cyfarwyddyd Drafft Cyfrif Refeniw Tai (Didyniadau mewn Cysylltiad â Chymorthdaliadau Ad-dalu Rhent) (Cymru) 2006

#### Diben

Ystyried Cyfarwyddyd Drafft Cyfrif Refeniw Tai (Didyniadau mewn Cysylltiad â Chymorthdaliadau Ad-dalu Rhent) (Cymru) 2006.

#### Crynodeb

(b) Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig sylwadau ar y Cyfarwyddyd drafft:

- a fyddai'n is-ddeddfwriaeth nad oes angen ei gwneud trwy offeryn statudol;
- sy'n cael ei ystyried o dan Reol sefydlog 29.3 (i);
- sy'n dechnegol ei natur; ac
- sy'n angenrheidiol er mwyn rheoleiddio penderfyniad polisi a wnaed yn flaenorol.

Mae CLILC wedi cytuno ar gyfnod ymgynghori byrrach a ddaw i ben ar 17 Hydref 2006. Caiff ymatebion i'r Ymgynghoriad eu hadolygu gan swyddogion. Caiff y Pwyllgor wybod am ganlyniad yr adolygiad ac am unrhyw ddiwygiadau i'r Cyfarwyddyd drafft cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor CCacA ar 19 Hydref.

Yn ddarostyngedig i'w ystyried gan y Pwyllgor, caiff y Cyfarwyddyd wedyn ei wneud trwy gael ei lofnodi, o dan Reol Sefydlog 29.4, gan neu ar ran y Gweinidog.

#### Cefndir

Cyfrifid am Ad-daliadau Rhent a roddid gan awdurdodau lleol i denantiaid tai cyngor cyn 1 Ebrill 2004 yng Nghyfrif Refeniw Tai yr awdurdod. Câi Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai a delid i awdurdodau lleol tuag at gostau Ad-daliadau Rhent o'r fath ei gynnwys yn yr un modd yn y Cyfrif Refeniw Tai. O ganlyniad, byddai costau net unrhyw Ad-daliadau Rhent a roddid gan awdurdodau lleol, nad oeddent yn gymwys neu na fyddent am reswm arall yn derbyn cymhorthdal, yn dod i ran y Cyfrif Refeniw Tai.

O dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, cyfrifir am Ad-daliadau Rhent a roddir i denantiaid tai cyngor ar, neu ar ôl, 1 Ebrill 2004, yng Nghronfa Gyngor yr awdurdod, ac felly hefyd y Cymorthdaliadau tuag at gostau o Ad-daliadau o'r fath. Mae'r Cymorthdaliadau mewn perthynas â'r Ad-daliadau hyn bellach yn daladwy gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Bydd Cyfarwyddyd Drafft Cyfrif Refeniw Tai (Didyniadau mewn Cysylltiad â Chymorthdaliadau Ad-dalu Rhent) (Cymru) 2006, os caiff ei wneud, yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol drosglwyddo, o'r Cyfrif Refeniw Tai i'r Gronfa Gyngor, swm cyfwerth â chyfanswm unrhyw ddidyniadau a wnaed mewn cysylltiad â chymorthdaliadau ad-dalu rhent. Bydd hefyd yn rhoi manylion am drefniadau pontio sydd ar gael i awdurdodau fel y gallant gyflwyno unrhyw effeithiau posibl ar y Gronfa Gyngor fesul cam.

## Goblygiadau Ariannol

Nid oes gwariant refeniw na chyfalaf cysylltiedig. O ganlyniad ni fydd effaith ar unrhyw rai o'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o fewn Prif Grwp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ac felly gellir ei gynnwys yn narpariaethau'r Prif Grwp Gwariant. Gellir talu unrhyw gostau gweinyddol cysylltiedig o gyllideb Costau Rhedeg Dirprwyedig Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

## Themâu Trawsbynciol

Ni wyddom am unrhyw themâu trawsbynciol mewn perthynas â'r Cyfarwyddyd drafft.

## Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried yr wybodaeth sydd yn y papur hwn ac yng Nghyfarwyddyd Drafft Cyfrif Refeniw Tai (Didyniadau mewn Cysylltiad â Chymorthdaliadau Ad-dalu Rhent) (Cymru) 2006.

Enw Edwina Hart AC MBE
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Cysylltwch â: Philip Cook, Y Gyfarwyddiaeth Dai, Tel: 029 2080 1247